# Y Pwyllgor Deisebau

**PET(3)-02-10 Papur 4: 1 Chwefror 2010**

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn PET(3) 02-10 Papur 4A

### (i) P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach

### Geiriad y ddeiseb

'Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ffordd liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach, i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm oddi ar hen Ffordd Merthyr y tu allan i Ysgol Bryn Bach a Phentref Princetown'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-92.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Doug Harris

**Nifer y llofnodion:** 624

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 6 Mawrth 2008, 10 Ebrill 2008, 22 Mai 2008, 23 Gorffennaf 2008, 20 Tachwedd 2008 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (ii) P-03-099 Llwybr ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y llofnodion:** 18

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 21 Chwefror 2008, 8 Mai 2008, 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (iii) P-03-172 Adfer fferi Abertawe / Cork

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan y fferi rhwng Abertawe / Cork. Credwn y bydd iddi fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-172.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** John Hosford

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglodd 29 o lofnodion. Casglwyd mwy na 1,500 o lofnodion a datganiadau o gefnogaeth ar wefan y deisebydd, yn galw am adfer y llwybr fferi hwn.

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 19 Mehefin 2009, 22 Medi 2009, 20 Hydref 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (iv) P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** John Warman

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 2 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 6 Hydref 2009 a 8 Rhagfyr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (v) P-03-189 Sefydliad Paul Sartori

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried yr arian a gynigiwyd i Sefydliad Paul Sartori ar fyrder.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-189.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Sefydliad Paul Sartori

**Nifer y llofnodion:** 1000+

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 13 Ionawr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (vi) P-03-204 Atebolrwydd i'r Cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno system agored a thryloyw er mwyn craffu ar safon y gwasanaeth a ddarperir gan y sector Addysg Uwch yng Nghymru a'r gwerth am arian y mae'r sector yn ei gynnig, ac i sicrhau bod newidiadau i lefelau gwasanaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-204.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Trevor Mayes

**Nifer y llofnodion:** 13

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (vii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Agor ar ddydd Sadwrn

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i alluogi'r Llyfrgell i wrthdroi ei benderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn o'r 1af Ebrill 2009. Dydd Sadwrn yw unig ddiwrnod yr wythnos y gall

ymchwilydd brwdfrydig, amatur sy'n gweithio, ymweld â'r llyfrgell.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-217.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Nicholas Davey

**Nifer y llofnodion:** 93

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (viii) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i achub ein fferyllfeydd stryd fawr lleol. Ein bwriad, wrth gyflwyno'r ddeiseb hon, yw dangos anghysonderau cyfredol y system bresennol o 'gymdogaethau' fel ag y maent mewn perthynas ag ail-leoli fferyllfeydd yng Nghymru. Ni chaniateir i unrhyw fferyllfa ail-leoli ar raddfa fach fel y diffinnir yn Rheoliadau Fferyllfeydd 1992 oni bai ei bod o fewn y gymdogaeth a ddiffinnir.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-219.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Aneurin Evans Chemists Ltd. a Judith Evans Pharmacies

**Nifer y llofnodion:** 3000+

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 23 Mehefin 2009, 6 Hydref 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-02-10 Papur 4A.

### (ix) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni

### Geiriad y ddeiseb

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Fford Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30 mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd dau bapur gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ac maent wedi'u hatodi fel rhan o PET(3)-02-10 Papur 4A.

### (x) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd i atal cau Meithrinfa Stepping Stones ar gampws Glyn Ebwy, Coleg Gwent.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-224.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Brian Walters

**Nifer y llofnodion:** 20 (yn ychwanegol at hyn, casglodd y deisebydd 1000+ o lofnodion ar gyfer deiseb gysylltiedig â hi)

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, addysg a Dysgu Gydol Oes ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xi) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl

### Geiriad y ddeiseb

Gofynnwn i'r Cynulliad adolygu'r darpariaethau presennol ynghylch pa mor agos y caiff tyrbinau gwynt fod at gartrefi, sef 500m. ar hyn o bryd (gweler paragraff 3.4, Atodiad D i TAN8). Gofynnwn i'r pellter lleiaf fod yn 2KM fel yn yr Alban. Ynghyd â'r sŵn, bu llawer o ddamweiniau ac mae'r ffaith bod y tyrbinau mor agos at gartrefi yn effeithio ar harddwch yr ardal leol i drigolion.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-231.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Grŵp Gweithredu Glyncorrwg

**Nifer y llofnodion:** 171

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009 a 24 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'r deisebwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xii) P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

### Geiriad y ddeiseb

Oherwydd y lefel gynyddol o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm, ar yr A40 ac oherwydd y ddarpariaeth annigonol o balmentydd a chroesfannau cerddwyr diogel, a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd drwy ymchwil a gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffordd ym mhentref Llanddewi Felffre, Arberth, Sir Benfro drwy roi'r mesurau a ganlyn ar waith, a hynny ar fyrder:

Gwella'r palmant annigonol ar hyd ochr ddeheuol yr A40 rhwng Llandaff Row a phen dwyreiniol y pentref i sicrhau ei fod yn boddhau safonau diogelwch presennol, a'i fod yn ddigon llydan i gael ei ddefnyddio'n ddiogel gan gerddwyr, cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn gan roi ystyriaeth i'r ffaith bod cerbydau nwyddau trwm yn gyrru heibio'n agos ac yn aml yn gyrru yn gyflymach na'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya.

Gosod camerâu cyflymdra yn nwyrain ac yng ngorllewin y pentref.

Defnyddio system drydanol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer arwyddion i groesi'r ffordd er mwyn darparu goleuadau rhybudd sy'n fflachio ar adegau pan fydd plant yn croesi'r A40 i ddal eu bws ysgol.

Gosod mesurau i ostegu traffig bob ochr i'r pentref ac ar gyffyrdd i bwysleisio'r angen i arafu.

Gostwng y terfyn cyflymder i 30mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-240.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre

**Nifer y llofnodion:** 154

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xiii) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

### Geiriad y ddeiseb

Hoffem ni yn Ysgol Gyfun Sant Julian pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried gwarchod darpariaeth addysg arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-255.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Disgyblion yr Uned Addysg Arbennig yn Ysgol Sant Julian, Casnewydd

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 10 Tachwedd 2009 a 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan  y Gweinido0g dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A

### (xiv) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu arian ar gyfer 5 trên ychwanegol y dydd i Abergwaun

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-256.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Sam Faulkner a Joanne Griffiths

**Nifer y llofnodion:** 10. (Yn ychwanegol at hyn, casglodd deiseb gysylltiedig â hi 1317 o lofnodion.)

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 24 Tachwedd 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xv) P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru

### Geiriad y ddeiseb

Gofynnwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-265.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Shelter Cymru

**Nifer y llofnodion:** 350+

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 8 Rhagfyr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xvi) P-03-267 Cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed fel mater o frys.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-267.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Hepatitis C Trust

**Nifer y llofnodion:** 24

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

### (xvii) P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth

**Geiriad y ddeiseb**

**Rydym ni, sy'n talu ardrethi busnes yn Arberth yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith y newidiadau mewn gwerthoedd ardrethol ar fusnesau'r dref. Dylai'r asesiad hwn gynnwys yr effaith ar swyddi ac ar gau busnesau.**

**Linc i'r ddeiseb: h**

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-271.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Siambr Fasnach Arberth

**Nifer y llofnodion:** 91

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr 2010

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 02-10 Papur 4A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2010**